

Eich cyf / Your ref:	Gofynner am / Please ask for:	Gareth Morgans
Fy nghyf / My ref:	Llinell Uniongyrchol / Direct Line:	01267 246522
Dyddiad / Date: 11-12-20	E-bost / E-mail:	EDGMorgans@sirgar.gov.uk

Annwyl Rieni/Gofalwyr,

Yr wythnos ddiwethaf, fe wnaethom ysgrifennu atoch yn nodi y byddai ein hysgolion yn aros ar agor tan 18fed o Ragfyr. Fodd bynnag, fel y gwyddoch, mae nifer yr achosion o Coronafeirws yn cynyddu'n gyflym ledled Cymru, gan gynnwys yn Sir Gâr. Fel y nodwyd eisoes, rydym wedi bod yn monitro'r mater yn ddydiol.

Mae'r nifer cynyddol o achosion yn y gymuned yn cael effaith sylweddol ar staff a disgyblion sydd yn gorfod hunan-ynysu, gan arwain at faterion staffio mawr mewn ysgolion yn ogystal â rhoi pwysau sylweddol ar dimau Profi Olrhain Diogelu. Rydym yn pryderu y bydd y sefyllfa hon yn gwaethygu yn ystod yr wythnosau nesaf.

Ddoe, penderfynodd Llywodraeth Cymru y byddai pob ysgol uwchradd ledled Cymru yn symud tuag at ddysgu o bell o ddydd Llun, Rhagfyr 14eg.

Oherwydd nifer yr achosion mewn sectorau eraill, ac ar ôl ystyried yr holl dystiolaeth sydd ar gael, rydym wedi penderfynu y bydd gan bob ysgol yn Sir Gaerfyrddin yr **opsiwn i symud i ddysgu o bell** o ddydd Mawrth 15fed o Ragfyr tan ddiwedd y tymor. Gallai hyn olygu na fydd disgyblion ar safle'r ysgol yn ystod y cyfnod hwnnw a bydd gweithgareddau dysgu o bell yn cael eu darparu ar eu cyfer gan eu hathrawon.

Rydym i gyd am fwynhau amser gyda'r teulu dros y Nadolig, a bydd darparu dysgu o bell o'r 15fed o Ragfyr yn rhoi 10 diwrnod clir cyn dydd Nadolig, os bydd angen i ddysgwyr neu aelodau o'r teulu hunan-ynysu. Mae hyn yn unol â datganiad Cell Cyngor Technegol Llywodraeth Cymru a gyhoeddwyd ar yr 2ail o Ragfyr.

Mae eich ysgol wedi penderfynu y byddant yn symud i ddysgu o bell ar gyfer dyddiau olaf y tymor hwn felly;

- Os yw eich plentyn yn gymwys i gael Prydau Ysgol am Ddim, byddwch yn derbyn taliad i'ch cynorthwyo yn ystod yr amser y bydd gartref. Byddwn yn prosesu hyn cyn gynted ag y gallwn.
- Bydd pob ysgol gynradd yn darparu gofal plant i weithwyr iechyd a gofal cymdeithasol rheng flaen os nad oes ganddynt unrhyw ddewis arall

Mae'n hanfodol bwysig bod disgyblion yn aros gartref yr wythnos nesaf yn cyflawni'r gwaith a osodwyd gan eu hathrawon. Bydd hyn yn sicrhau bod disgyblion yn cadw i fyny â'u gwaith a hefyd yn atal y feirws rhag cael ei drosglwyddo ymhellach yn y gymuned.

Gareth Morgans, BAdd/BEed; MGw/MSc

Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Plant,
Neuadd y Sir, Gaerfyrddin, Sir Gaerfyrddin SA31 1JP
Director of Education & Children's Services,
County Hall, Carmarthen, Carmarthenshire SA31 1JP



BUDDSODDWYR | INVESTORS
MEWN POBL | IN PEOPLE

Mae croeso i chi gysylltu â mi yn y Gymraeg neu'r Saesneg

You are welcome to contact me in Welsh or English

Os oes gan eich plentyn, neu unrhyw aelod o'ch cartref symptomau Covid-19 yn ystod cyfnod y gwyliau, gofynnwch am brawf drwy ffonio 119 neu defnyddiwch y porth <https://gov.wales/apply-coronavirus-covid-19-test>.

Os caiff eich plentyn ganlyniad prawf Covid cadarnhaol, cysylltwch â **Llesiant Delta** (ttp@deltawellbeing.org.uk neu 0300 3332222) gan ddarparu enw, grŵp blwyddyn ac ysgol eich plentyn.

Sylwch fod pob cyfnod hunan-ynysu bellach wedi newid o 14 i 10 diwrnod.

Mae disgyblion a staff ein hysgolion wedi bod yn hynod gyfrifol yn eu hymateb i heriau'r tymor hwn, ac rydym yn falch iawn ohonynt. Hoffwn ar ddiwedd tymor ddiolch o waelod calon ichi fel rhieni/gofalwyr am eich cydweithrediad ac i holl staff ei hysgolion am roi eu hysgwydd o dan y baich.

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda,

Glynog Davies

Gareth Morgans

Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Addysg

Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Plant

Gareth Morgans, BAdd/BEd; MGw/MSc

Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Plant,
Neuadd y Sir, Gaerfyrddin, Sir Gaerfyrddin SA31 1JP
Director of Education & Children's Services,
County Hall, Carmarthen, Carmarthenshire SA31 1JP



BUDDSODDWR | INVESTORS
MEWN POBL | IN PEOPLE

Mae croeso i chi gysylltu â mi yn y Gymraeg neu'r Saesneg

You are welcome to contact me in Welsh or English